




2025

Cymraeg i Oedolion: Lefel Mynediad
Welsh for Adults: Entry Level

A1



Gwybodaeth i Ymgeiswyr
Information for Candidates

Mae CBAC yn aelod llawn o ALTE
(Cymdeithas i Brofwyr leithoedd yn Ewrop).
www.alte.org

WJEC is a full member of ALTE (Association of Language Testers in Europe). www.alte.org



Defnyddio'r Gymraeg: Mynediad 2025

English below – [click here](#).

Beth yw Defnyddio'r Gymraeg: Mynediad?

Arholiad wedi ei fwriadu'n bennaf ar gyfer oedolion sy'n dysgu Cymraeg ar lefel dechreuwyr. Does dim rhaid sefyll arholiad er mwyn dysgu Cymraeg, ond mae'n rhoi rhywbeth i chi anelu ato ac yn eich helpu i wella'ch sgiliau iaith.

Beth yw'r lefel?

Dyma'r lefel isaf y gellir sefyll arholiad arni. Mae'r arholiad yma'n addas i ddysgwyr sydd wedi gorffen Cwrs Mynediad neu sydd ar lefel debyg. Mae'r cymhwyster hwn yn cyfateb i lefel A1 yn fframwaith Ewrop (CEFR).

Beth fydd ar gael yn 2025?

Bydd CBAC yn cynnig yr arholiadau'n llawn yn 2025. Hynny yw, bydd modd sefyll y profion Gwrando, Darllen, Ysgrifennu a Siarad ac ennill cymhwyster llawn.

Ydy hi'n bosib sefyll y prawf Siarad yn unig?

Ydy. Byddwch chi'n cael datganiad cyrhaeddiad, nid cymhwyster llawn. Pan fyddwch chi'n cofrestru gyda'ch canolfan arholi, rhaid i chi nodi mai dim ond y prawf Siarad dych chi eisiau'i wneud. Fyddwch chi ddim yn gallu newid eich cofrestriad yn hwyrach. Os dych chi *wedi* sefyll y prawf Siarad ar y lefel hon yn barod, mae'n bosib gwneud y profion eraill (Darllen, Ysgrifennu a Gwrando) er mwyn cwblhau'r cymhwyster y flwyddyn ganlynol. **Dim ond am un flwyddyn y gellir cario marc y prawf Siarad.** Os dych chi eisiau gwneud hyn, rhaid i chi roi gwybod i'ch canolfan arholi pan fyddwch chi'n cofrestru.

Pryd bydd hyn yn digwydd?

Bydd hi'n bosibl sefyll yr arholiad ar dri dyddiad gwahanol:

Dydd Gwener 31 Ionawr 2025

Dydd Mawrth 10 Mehefin 2025

Nos Fercher 11 Mehefin 2025

Rhaid i chi nodi pa ddyddiad dych chi eisiau sefyll y prawf wrth gofrestru. Bydd eich canolfan arholi'n rhoi gwybod union amser eich prawf Siarad ychydig ddyddiau cyn diwrnod yr arholiad ei hun.

Erbyn pryd mae'n rhaid cofrestru?

Ar gyfer arholiad Ionawr, rhaid cofrestru erbyn 6 Rhagfyr 2024.

Ar gyfer arholiadau haf 2025, rhaid cofrestru erbyn 28 Chwefror 2025.

Fydd cofrestriadau hwyr ddim yn cael eu derbyn.

Faint mae'r arholiad yn ei gostio?

Cysylltwch â'ch darparwr Dysgu Cymraeg lleol i gael gwybodaeth am y ffi.

Sut ydw i'n cofrestru?

Rhaid i bob ymgeisydd gofrestru gyda'ch darparwr Dysgu Cymraeg. Chi sy'n gyfrifol am hyn, nid eich tiwtor. Ni ellir cofrestru'n uniongyrchol gyda CBAC. Mae'r cyfeiriadau cyswllt ar ddiwedd y ddogfen hon.

Ni all CBAC na'r canolfannau arholi warantu y bydd yr arholiad ar gael yn eich ardal chi.

Braslun o'r Arholiad

Mae sawl rhan i'r arholiad, yn profi'r sgiliau iaith dych chi'n eu dysgu yn eich dosbarth Cymraeg.

- | | |
|---|-----|
| 1. Gwrando a Deall | 20% |
| i. Deialog | |
| ii. Bwletin tywydd | |
| iii. Amserau a phrisiau | |
| 2. Siarad | 55% |
| i. Darllen deialog yn uchel | |
| ii. Ateb cwestiynau | |
| iii. Ateb cwestiynau am lun | |
| iv. Holi cwestiynau | |
| 3. Darllen a Deall, a Llenwi Bylchau | 15% |
| i. Hysbysebion | |
| ii. Deialog | |
| iii. Llenwi bylchau | |
| 4. Ysgrifennu | 10% |
| i. Ysgrifennu cerdyn post | |
| ii. Ysgrifennu portread byr ar sail llun | |

Rhagor o fanylion

1. **Gwrando a Deall** 20%
Byddwch chi'n clywed tri darn byr a recordiwyd ymlaen llaw, dair gwaith.
- i. **Deialog**
Rhaid i chi nodi'r dewis priodol mewn ymateb i gwestiynau ffeithiol syml am y ddeialog.
 - ii. **Bwletin tywydd**
Rhaid i chi wrando ar fwletin tywydd syml a gorffen brawddegau'n disgrifio'r tywydd ar sail yr wybodaeth yn y bwletin.
 - iii. **Amserau a phrisiau**
Mae nifer o hysbysiadau ar y CD a rhaid i chi nodi amserau dechrau'r digwyddiadau a'r prisiau a ddisgrifir.

2. **Siarad** 55%

Fel arfer, mae'r prawf yn para tua 7-8 munud.

Bydd y prawf yn cael ei recordio ac yn cael ei asesu'n allanol. Peidiwch â chofrestru os nad ydych chi'n fodlon cael eich recordio yn y modd hwn.
Bydd y cyfwelydd yn defnyddio'r ffurfiau iaith sy'n gyfarwydd i chi.

Mae'n bosib y bydd y prawf Siarad yn cael ei gynnal ar-lein. Os felly, bydd y prawf yn cael ei recordio ar lwyfan addysgu arferol eich darparwr (e.e. Zoom neu MS Teams). **Eich canolfan arholi fydd yn penderfynu sut bydd eich prawf Siarad yn cael ei gynnal.**

Prawf Siarad 'Wyneb-yn-wyneb'

Byddwch chi'n cael taflen yr ymgeisydd ar ddechrau'r prawf ac yn cael 2 funud i edrych ar y ddeialog (Rhan 1).

Prawf Siarad 'Ar-lein'

Cyn dechrau'r prawf ar-lein, bydd rhaid i chi ddangos ID ffotograffig i'r cyfwelydd, er mwyn cadarnhau pwy ydych chi. Wedyn, bydd y cyfwelydd yn rhannu sgrîn â chi er mwyn i chi gael 2 funud i edrych ar y ddeialog (Rhan 1) cyn dechrau'r prawf.

Mae 4 rhan i'r prawf Siarad:

- i. **Darllen deialog yn uchel**
Byddwch chi'n darllen deialog yn uchel gyda'r cyfwelydd.
Asesir eich gallu i ynganu yn y rhan hon.
- ii. **Ateb cwestiynau'r cyfwelydd**
Bydd y cyfwelydd llafar yn gofyn cwestiynau personol syml i chi yn Gymraeg, e.e. Beth dych chi'n hoffi'i wneud yn eich amser sbâr? Dylech chi ateb gan ddefnyddio brawddegau cyflawn.
- iii. **Ateb cwestiynau am lun**
Bydd llun o berson ar y daflen/sgrîn â nifer ffeithiau amdano /amdani. Bydd y cyfwelydd yn gofyn cwestiynau am y person a rhaid i chi ateb gan ddefnyddio brawddegau cyflawn ar sail y sbardunau ar y daflen/sgrîn.
- iv. **Holi'r cyfwelydd**
Bydd 5 gair neu ymadrodd ysgrifenedig ar y daflen/sgrîn, a rhaid i chi eu defnyddio fel sail i ofyn 5 cwestiwn, e.e. ar sail y gair 'byw', gellir gofyn Ble dych chi'n byw? / Lle dach chi'n byw?

Mae rhannau ii-iv yn asesu eich gallu i ateb cwestiynau a'u gofyn yn gywir. Ceir manylion llawn am sut y cymhwysir y mein prawf asesu yn y fanylob, sydd ar wefan CBAC: www.cbac.co.uk, (gw. dan 'Cymraeg i Oedolion Mynediad').

3. **Darllen a Deall, a Llenwi Bylchau** 15%
 - i. **Hysbysebion**
Mae hysbysebion ar y papur a nifer o gwestiynau amdanynt nhw. Rhaid i chi roi atebion byr, nid brawddegau.
 - ii. **Deialog**
Yma, rhaid i chi ddarllen deialog ac ateb cwestiynau'n seiliedig ar yr wybodaeth yniddi.
 - iii. **Llenwi bylchau**
Mae 10 brawddeg ar y papur a bwlch ym mhob un i'w lenwi.

Yn rhannau i. a ii. fyddwch chi ddim yn colli marciau am wallau sillafu na gramadeg yn eich ymatebion.

4. **Ysgrifennu** 10%

i. **Cerdyn post**

Mae 5 gair/ymadrodd ar y papur a rhaid i chi gynnwys y rhain mewn cerdyn post.

ii. **Portread byr ar sail diagram**

Rhoddir diagram ar y papur a nifer o luniau/symbolau'n disgrifio'r person yn y canol. Rhaid i chi ysgrifennu 5 brawddeg am y person yn seiliedig ar y lluniau/symbolau hynny.

Mae'r prawf hwn yn asesu eich gallu i ysgrifennu'n gywir.

Pryd mae'r profion?

Cynhelir y profion i gyd ar ddiwrnod penodol. Ni chaniateir i ymgeiswyr sefyll yr arholiad ar amserau gwahanol i'r rhai a nodir.

Bydd y papurau yn y drefn yma, gan ddechrau am 10 y bore¹:

| | |
|-----------------------------------|---------------|
| Darllen a Deall, a Llenwi Bylchau | 30 munud |
| Ysgrifennu | 30 munud |
| Gwrando a Deall | tua 25 munud |
| Prawf Siarad | tua 7-8 munud |

Cynhelir y Prawf Siarad ar amser penodol yn y prynhawn, ar ôl toriad am ginio. Bydd eich canolfan yn cadarnhau lleoliad yr arholiad ac *amcan* o amser eich prawf siarad cyn yr arholiad ei hun.

Canlyniadau

Byddwch chi'n cael eich marc am bob prawf tua wyth wythnos wedyn, ac yn derbyn dystysgrif fel arfer tua diwedd mis Medi. Os byddwch chi'n sefyll y prawf Siarad yn unig, byddwch chi'n derbyn datganiad cyrhaeddiad. Does dim graddau ar gyfer yr arholiad hwn, dim ond Llwyddo neu Fethu.

Manyleb lawn a phapurau enghreifftiol

Braslun o'r arholiad sy yn y llyfryn hwn. Ceir y manylion llawn yn y fanylob i diwtoriaid. Mae papurau enghreifftiol hefyd ar gael ar wefan CBAC ac enghreifftiau fideo o brofion Siarad, gw. www.cbac.co.uk dan 'Cymraeg i Oedolion Mynediad'.

Dyddiadau arholiad

| | |
|-----------------------------|-------------------------------|
| Dydd Gwener 31 Ionawr 2025 | 6 Rhagfyr 2024 |
| Dydd Mawrth 10 Mehefin 2025 | 28 Chwefror 2025 |
| Nos Fercher 11 Mehefin 2025 | 28 Chwefror 2025 ¹ |

Dyddiad cau cofrestru

¹ Os bydd yr arholiad ar gael ar nos Fercher 11 Mehefin 2025 yn eich canolfan chi, bydd y profion yn dechrau am 6yh, ac yn dilyn yr un drefn. Bydd y profion Siarad yn dechrau'n fuan ar ôl 7.30 fel arfer, a bydd y profion Siarad yn cael eu cynnal ar amserau gwahanol tan tua 9.00yh. Defnyddir papurau arholiad gwahanol i bob gweinyddiad gwahanol.

Diogelu data

Os byddwch chi'n cofrestru i sefyll arholiad gyda'ch darparwr 'Dysgu Cymraeg', bydd gofyn i chi ddarparu peth data personol. Rhennir eich data cofrestru gyda'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Anfonir peth o'r data hyn, sef enwau blaen, cyfenw, dyddiad geni a rhyw, gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i CBAC. Mae'n angenrheidiol rhannu eich data personol yn y modd hwn er mwyn eich galluogi i sefyll yr arholiad a derbyn dyfarniad. Mae gwybodaeth am sut mae CBAC yn prosesu eich data personol ar gael yma: www.cbac.co.uk dan Amdanom ni > Polisiau > [Hysbyseb Preifatrwydd](#). Byddwch ar ddeall *na* fydd eich manylion cyswllt yn cael eu rhannu â CBAC a dylid cyfeirio unrhyw ymholiad sydd gennych mewn perthynas â'r arholiad i'ch canolfan arholi, h.y. eich darparwr 'Dysgu Cymraeg'.

Anghenion Arbennig

Os oes unrhyw anghenion arbennig gyda chi, a allai effeithio ar fynediad teg i'r arholiad, e.e. trafferthion clyw/golwg neu anghenion corfforol, rhaid rhoi gwybod i'r ganolfan arholi erbyn y dyddiad cau cofrestru. Mae gwybodaeth am yr addasiadau posib ar gael yn y ddogfen 'Trefniadau Mynediad ac Addasiadau Rhesymol' ar wefan CBAC (yn Gymraeg) – www.cbac.co.uk.

Defnyddio'r Gymraeg: Mynediad 2025

What is Defnyddio'r Gymraeg: Mynediad?

An exam intended primarily for adults who are learning Welsh at a beginners level. You don't have to sit an exam to learn Welsh, but it does give you something to aim for, and will help you improve your language skills.

What is the level?

This is the lowest level at which you can sit an exam. This exam is suitable for learners who have finished Cwrs Mynediad, or who are on a similar level. This qualification corresponds to A1 level in the European framework (CEFR).

What will be available in 2025?

WJEC will provide the full exams in 2025. That is, it will be possible to take the Listening, Reading, Writing and Speaking tests and gain a full qualification.

Is it possible to take the Speaking test only?

Yes. You'll receive a statement of attainment, not a full qualification. When you register with your exam centre, you must let them know that you wish to take the Speaking test only. You will not be able change the registration later. If you *have* taken the Speaking test at this level already, it's possible to take the other tests (Reading, Writing and Listening) in order to complete the qualification. **The Speaking test mark may be carried forward for one year only.** If you wish to do this, you must let your exam centre know when you register.

When will this take place?

It will be possible to sit the exam on three different dates:

Friday 31 January 2025

Tuesday 10 June 2025

Wednesday evening 11 June 2025

You must indicate which date you wish to take the test on registration.

Your exam centre will let you know the exact time of your Speaking test a few days before the day itself.

By when do I need to register?

For the January Mynediad exam, you must register by 6 December 2024. For the summer 2025 exams, you must register by 28 February 2025.

Late registrations will not be accepted.

How much does the exam cost?

Contact your Learn Welsh provider for information about the fee.

How do I register?

All candidates must register with their 'Learn Welsh' provider. You are responsible for this, not your tutor. You can not register directly with WJEC. The contact details are at the end of this document.

Neither WJEC nor exam centres can guarantee that the exam will be available in your area.

An Outline of the Examination

There are several parts to the exam, testing the language skills that you're learning in your Welsh class.

1. Listening Comprehension 20%

- i. Dialogue
- ii. Weather bulletin
- iii. Times and prices

2. Speaking 55%

- i. Reading a dialogue aloud
- ii. Answering questions
- iii. Answering questions about a picture
- iv. Asking questions

3. Reading Comprehension and Gap-filling 15%

- i. Advertisements
- ii. Dialogue
- iii. Gap-filling

4. Writing 10%

- i. Writing a post-card
- ii. Writing a short portrait based on a picture

More details

- 1. Listening Comprehension** 20%
You will hear three short, pre-recorded pieces, three times.
 - i. **Dialogue**
You must choose the appropriate answer in response to simple factual questions about the dialogue.
 - ii. **Weather bulletin**
You must listen to a simple weather bulletin and complete sentences describing the weather, on the basis of information in the bulletin.
 - iii. **Times and prices**
There are a number of announcements on the CD, and you must note the start times and prices of the events described.

2. Speaking

The test usually lasts around 7-8 minutes.

The test will be recorded and assessed externally. Do not register unless you are willing to be recorded in this way.

The interviewer will use language forms which are familiar to you.

The speaking test may be held online. If so, it will be recorded using the teaching platform used by your provider (e.g. Zoom or MS Teams). **Your exam centre will decide how the Speaking test will be held.**

‘Face-to-face’ Speaking test

You will be given the candidate’s sheet at the start of the test and have 2 minutes to look at the dialogue (Part 1).

‘On-line’ Speaking test

Before starting the on-line speaking test, you will have to show the interviewer photographic ID to confirm your identity. Then, the interviewer will share the screen for you to have 2 minutes to look at the dialogue (Part 1) before starting the test.

There are 4 parts to the test:

i. **Reading aloud**

You will read a short dialogue aloud with the interviewer. Your pronunciation will be assessed in this part.

ii. **Answering the interviewer's questions**

The interviewer will ask you simple personal questions in Welsh, e.g. What do you like doing in your spare time? You should answer using complete sentences.

iii. **Answering questions about a picture**

On the sheet/screen there will be a picture of a person with a number of facts about him/her. The interviewer will ask questions and you must answer using complete sentences based on the prompts on the sheet/screen.

iv. **Asking the interviewer**

There are 5 written words or phrases on the sheet/screen to be used as a basis for asking 5 questions, e.g. for the word 'byw' you could ask *Ble dych chi'n byw?/Lle dach chi'n byw?*

In parts ii-iv you will be assessed on your ability to answer and ask questions correctly. Full details about how the assessment criteria are applied are available in the specification, which is on the WJEC website: www.wjec.co.uk, (see under 'Welsh for Adults Mynediad').

3. Reading Comprehension and Gap-filling 15%

i. **Advertisements**

There are advertisements on the paper and a number of questions based on them. You have to give short answers, not sentences.

ii. **Dialogue**

Here, you must read a dialogue and answer questions based on the information given.

iii. **Gap-filling**

There are 10 sentences on the paper with a gap in each one to be filled.

In parts i. and ii. you will not lose marks for spelling or grammar errors in your responses.

4. Writing 10%

i. **Post-card**

There are 5 words/phrases on the paper which you must include in a post-card.

ii. **Short portrait based on a diagram**

You are given a diagram on the paper and a number of pictures/symbols describing the person in the centre. You must write 5 sentences about the person based on those pictures/symbols.

This test assesses your ability to write correctly.

When are the tests?

The tests will all be held on specific dates. No candidate will be allowed to sit the exam at times other than those noted.

The papers will be in this order, starting at 10am¹:

| | |
|---------------------------------------|---------------------|
| Reading Comprehension and Gap-filling | 30 minutes |
| Writing | 30 minutes |
| Listening Comprehension | approx. 25 minutes |
| Speaking Test | approx. 7-8 minutes |

The Speaking Test will be held at a designated time in the afternoon, after a lunch break. Your centre will confirm the location of the exam and time of your speaking test before the exam itself.

Results

You will receive your marks for each test approximately eight weeks after sitting the examination, and will receive a certificate usually at the end of September. If you only take the Speaking test, you will receive a statement of attainment. No grades are awarded for this exam, only Pass or Fail.

Full specification and example papers

This booklet gives an outline of the exam. Full details are given in the specification for tutors. Example papers are also available on the WJEC website, see www.wjec.co.uk under ‘Welsh for Adults Mynediad’.

Exam dates

Friday 31 January 2025
Tuesday 10 June 2025
Wednesday evening 11 June 2025

Registration closing dates

6 December 2024
28 February 2025
28 February 2025¹

¹ If the exam is available on Wednesday evening 11 June 2025 in your centre, the tests will commence at 6pm and follow the same order. The Speaking tests will start soon after 7.30 and will be held at different times until around 9pm. Different papers are used for each different session.

Data protection

If you register to take an exam with your ‘Learn Welsh’ provider, you will be asked to provide certain personal data. Your registration data will be shared with the National Centre for Learning Welsh. Some of these data, i.e. forenames, surname, date of birth and gender, will be sent by the National Centre for Learning Welsh to WJEC. It is necessary for your personal data to be shared in this way in order to facilitate your taking the exam and receiving an award. Information about how WJEC processes your personal data is available here: www.wjec.co.uk under About us > Policies > [Privacy Notice](#). Please be aware that your contact details will *not* be shared with WJEC and any queries you have in relation to the exam should be directed to your exam centre, i.e. your ‘Learn Welsh’ provider.

Special Requirements

If you have any special requirements, which may affect fair access to the exam, e.g. hearing or vision impairment, or physical requirements, you must inform your exam centre by the registration date. Information about the possible adaptations is available in the document ‘Access Arrangements and Reasonable Adjustments’ on the JCQ website (in English) – www.jcq.org.uk.

Manylion Cyswllt Canolfannau Arholi
Exam Centre Contact Details

1. Abertawe, Nedd, Port Talbot

Dysgu Cymraeg Ardal Bae Abertawe
Academi Hywel Teifi
Adeilad Talbot
Prifysgol Abertawe
Parc Singleton
ABERTAWE SA2 8PP

dysgcymraeg@abertawe.ac.uk
Ffôn: 01792 602070
Rhif canolfan arholi: 00501

Swansea, Neath, Port Talbot

Learn Welsh Swansea Bay Region
Academi Hywel Teifi
Talbot Building
Swansea University
Singleton Park
SWANSEA SA2 8PP

learnwelsh@swansea.ac.uk
Telephone: 01792 602070
Exam centre number: 00501

2. Caerdydd

Dysgu Cymraeg Caerdydd
Ysgol y Gymraeg
Prifysgol Caerdydd
Adeilad John Percival
Rhodfa Colum
CAERDYDD CF10 3EU

info@learnwelsh.co.uk
Ffôn: 029 2087 4710
Rhif canolfan arholi: 00502

Cardiff

Learn Welsh Cardiff
School of Welsh
Cardiff University
John Percival Building
Colum Drive
CARDIFF CF10 3EU

info@learnwelsh.co.uk
Telephone: 029 2087 4710
Exam centre number: 00502

3. Ceredigion, Powys a Sir Gâr

Dysgu Cymraeg Ceredigion, Powys
a Sir Gâr
Prifysgol Aberystwyth
Adeilad yr Arglwydd Milford
Campws Gogerddan
ABERYSTWYTH
Ceredigion SY23 3EE

dysgcymraeg@aber.ac.uk
Ffôn: 0800 876 6975
Rhif canolfan arholi: 00503

Ceredigion, Powys and Carmarthenshire

Learn Welsh Ceredigion, Powys and
Carmarthenshire
Aberystwyth University
Lord Milford Building
Gogerddan Campus
ABERYSTWYTH
Ceredigion SY23 3EE

learnwelsh@aber.ac.uk
Telephone: 0800 876 6975
Exam centre number: 00503

4. Gogledd Orllewin Cymru

Dysgu Cymraeg – Gogledd Orllewin
Prifysgol Bangor
Stryd y Deon
BANGOR
Gwynedd LL57 1UT

elen.l.jones@bangor.ac.uk

Ffôn: 01248 383690
Rhif canolfan arholi: 00504

North West Wales

Learn Welsh – North West
Bangor University
Dean Street
BANGOR
Gwynedd LL57 1UT

elen.l.jones@bangor.ac.uk

Telephone: 01248 383690
Exam centre number: 00504

5. Gwent

Dysgu Cymraeg Gwent
Coleg Gwent
Campws Crosskeys
Heol Risca
CROSSKEYS
Caerffili NP11 7ZA

welsh@coleggwent.ac.uk

Ffôn: 01495 333710
Rhif canolfan arholi: 00505

Gwent

Learn Welsh Gwent
Coleg Gwent
Crosskeys Campus
Risca Road
CROSSKEYS
Caerphilly NP11 7ZA

welsh@coleggwent.ac.uk

Telephone: 01495 333710
Exam centre number: 00505

6. Morgannwg

Dysgu Cymraeg Morgannwg
Prifysgol De Cymru
403, Bloc G
Trefforest
PONTYPRIDD CF37 1DL

katy.brown@decymru.ac.uk

Ffôn: 01443 483600
Rhif canolfan arholi: 00506

Glamorgan

Learn Welsh Glamorgan
University of South Wales
403, Bloc G
Treforest
PONTYPRIDD CF37 1DL

katy.brown@decymru.ac.uk

Telephone: 01443 483600
Exam centre number: 00506

7. Sir Benfro

Dysgu Cymraeg Sir Benfro
Canolfan Gymunedol Bloomfield
Redstone Road
ARBERTH
Sir Benfro
SA67 7ES

Ffôn: 01437 770180

Dawn.Bowen@pembrokeshire.gov.uk

Rhif canolfan arholi: 00507

Pembrokeshire

Learn Welsh Pembrokeshire
Bloomfield Community Centre
Redstone Road
NARBERTH
Pembrokeshire
SA67 7ES

Tel: 01437 770180

Dawn.Bowen@pembrokeshire.gov.uk

Exam centre number: 00507

8. Bro Morgannwg

Dysgu Cymraeg y Fro
Canolfan Ddysgu Palmerston
Cilgant Cadog
Y BARRI CF63 2NT

Ffôn: 01446 730402
learnwelsh@valeofglamorgan.gov.uk
Rhif canolfan arholi: 00508

Vale of Glamorgan

Learn Welsh the Vale
Palmerston Learning Centre
Cadoc Crescent
BARRY CF63 2NT

Tel: 01446 730402
learnwelsh@valeofglamorgan.gov.uk
Exam centre number: 00508

9. Gogledd Ddwyrain Cymru

Dysgu Cymraeg Gogledd Ddwyrain
Coleg Cambria
Ffordd Parc y Gelli
WRECSAM LL12 7AB

Ffôn: 01978 267596
learncymraeg@cambria.ac.uk
Rhif canolfan arholi: 00509

North East Wales

Learn Welsh North East
Coleg Cambria
Grove Park Road
WREXHAM LL12 7AB

Telephone: 01978 267596
learncymraeg@cambria.ac.uk
Exam centre number: 00509